Yna yn ôl i'r ysgol a chinio Nadolig blasus tu hwnt. Diolchwyd i Mrs E. Scurlock a Mrs P. Davies gan Nia Morgan ac Adrian Paddock.

Aeth criw ohonom allan i ganu carolau o amgylch y pentref ar y nos Fercher gan gasglu tuag at drychineb Armenia. Wedi dychwelyd i'r ysgol cafwyd bowleniaid o gawl poeth wedi ei baratoi gan swyddogion yr Urdd. Pleser yw cyhoeddi bod y swm a gasglwyd yn £157.31 a mawr yw ein diolch i'r ardal am ei hymateb parod unwaith yn rhagor.

Cafodd dau dîm o ddysgwyr gyfle i gymryd rhan yng nghwis Llyfrgell Dyfed ychydig cyn y Nadolig a chawsant hwyl yn darllen nifer o lyfrau Cymraeg. Gwnaeth y ddau dîm waith ardderchog a bydd un ohonynt yn mynd ymlaen i'r ail rownd a gynhelir yn y dyfodol agos. Pob hwyl i chwi eto.

Cymerodd nifer o'r plant hynaf ran yng nghystadleuaeth cynllunio poster ar gyfer y cynhyrchiad o 'Beauty and the Beast' yng nghanolfan y Celf-yddydau yn Aberystwyth yn ddiweddar. Bu tri ohonynt yn dra llwyddiannus gan dderbyn canmoliaeth uchel iawn a thocynnau i fynychu un o'r cynhyrchiadau. Y tri oedd Melanie Evans, Karen Hughes ac Alun Price.